Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

21 Tachwedd 2016

Annwyl Huw

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg

Derbyniais neges e-bost yn ddiweddar gan Manon Elin, Cadeirydd Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith, ynghylch y rheoliadau sydd ar droed a fydd yn dod â Safonau newydd y Gymraeg i rym. Atodaf ei neges e-bost, ynghyd â'm hymateb innau.

Fel y gwyddoch o bosib, yn y Cynulliad blaenorol gosodwyd rheoliadau at ddibenion tebyg i'r rhai sydd gerbron yn awr, ond ni chawsant eu cymeradwyo gan y Cynulliad.

Mae'r rheoliadau'n destun gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol, a bydd angen i'r Cynulliad llawn gytuno arnynt. Er mai Llywodraeth Cymru sydd i benderfynu pryd y gosodir y rheoliadau, rwy'n deall bod disgwyl iddynt gael eu gosod yn fuan. Rwyf hefyd yn deall y bydd eich Pwyllgor yn craffu arnynt o dan Reolau Sefydlog 21 a 27.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu i bwyllgorau eraill y Cynulliad graffu ar is-ddeddfwriaeth os byddant yn rhoi rhybudd ymlaen llaw, ac yn cynnal y gwaith craffu o fewn amser penodol. Ni fyddwn am wneud sylw ar unrhyw benderfyniad a gaiff ei wneud gan fy Mhwyllgor o ran a fyddai'n dymuno craffu ar y rheoliadau penodol hyn. Fodd bynnag, o ystyried gwaith arall y Pwyllgor, credaf fod y cyfyngiad amser yn golygu na fyddai'n ymarferol bosib i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gynnal gwaith craffu.

Wrth gwrs, bydd eich Pwyllgor chi fel mater o drefn yn ystyried a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r rheoliadau hyn am resymau 'technegol' o dan Reol Sefydlog 21.2. O ystyried y cefndir a’r safbwyntiau a fynegwyd gan Gymdeithas yr Iaith, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried hefyd p'un a ddylai eich Pwyllgor chi adrodd ar rinweddau'r rheoliadau o dan Reol Sefydlog 21.3.

Yn gywir

Bethan Jenkins

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd